

Cyngor Cymuned Bodedern



Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd
yng Nghanolfan Bro'r Ysgol, Bodedern,

Nos Lun, 23 Medi 2019

am 7 yr hwyr.

1. Croeso ac ymddiheuriadau.

Presennol: J Ferry **JF**, J Griffith **JG**, B Hughes **BH**, E Jones **EJ**, L Jones **LJ**, OG Roberts **OGR**, JA Roberts **JAR** Cadeirydd, EAB Thomas **EABT**, R Owen **clerc**.

Ymddiheuriadau: A Ifan **AI**, C Jones **CJ**, V Owen **VO**.

2. Datgan Diddordeb: **JG** eitem 6.

3. Arwyddo cofnodion cyfarfod: 22 Gorffennaf 2019

Derbynwyd y cofnodion fel rhai cywir. **BH** yn cynnig, **JF** yn eilio. **EABT** yn diolch fod y cofnodion-wedi eu rhoi mewn print bras i alluogi rhai a nam golwg i gymryd rhan yn y cyfarfodydd.

4. Materion sy'n codi.

4.1 Cadarnhawyd fod y gwaith wedi cychwyn ar drin waliau'r fynwent. **BH** yn holi os oedd y contractwyr yn mynd i fod yn clirio'r cerrig sydd wedi eu gadael yn y cae. Y clerc i wneud ynholiad a'r contractwyr. Un mainc wedi ei symud o'r fynwent a'r teulu yn mynd i drefnu cael un newydd. Y clerc i ysgrifennu llythyr o ddiolch iddynt. Mon GC yn cadarnhau gallent dorr'r gwrychyn ogwmpas y fainc 2000 dros y Gaeaf. Y clerc i wneud ynholiad gyda MGC am gost o fynd a'r glaswellt sydd wedi ei dorri o'r fynwent yn y flwyddyn araiannol nesaf.

4.2 Derbynwyd un mynegiant o ddiddordeb yn y sedd wag, ond yr unigolyn wedi penderfynnu peidio a chyflwyno enw ar hyn o bryd.

4.3 Pris o £820 + TAW wedi ei dderbyn i drin y lloches bws. Y clerc i wneud ynholiadau pellach i gael pris i gymharu.

4.4 Cyfeth Naturiol Cymru wdi cadaranhau mae bocs i ddal bagaiu baw ci oedd wedi eu gosod yn Llaneilian, nid biniau dal baw.

4.51 **JG** yn cyflwyno ymateb CSYM ynglyn ac arwydd Bodededrn ar lon gefn pasio Tyn Graig, gyda CSYM yn nodi mae ar gais y Cyngor Cymuned y gosodwd yr arwydd, felly cyfrifoldeb y Cyngor Cymuned yw ei drin. 4.52- CSYM mewn trafodaethau a pherchennog y Crown i ddiogelu'r wal. 4.53 Dangoswyd llun i'r cynghorwyr o'r math o arwyddion gall CSYM eu gosod yn nodi maes chwarae. Cytunodd y cynghorwyr ar yr arwydd, **JG** i adrodd yn ol i CSYM.



Clerc/ Clerk:
Ms. Rhian Wyn Owen,
Rhoscryman Bach, Llanfairynghornwy, LL65 4LS.

Ffôn dydd / Day tel: (01407) 740 940
Symudol / mobile: 07802 754 187
cyngorcymunedbodedern@outlook.com

Cyngor Cymuned Bodedern



5. Derbyn adroddiadau ynglyn a'r maes chwarae gan cynrychiolydd Ffrindiau Bodedern.

5.1 Derbynwyd ebost gan gynrychiolydd Ffrindiau Bodedern yn nodi bod angen gwaith ail lefelu darn o'r cae chwarae i godi cerrig sydd odan y gwyneb ac ei wneud yn addas ar gyfer chwarae pel-droed, a gwnaethwyd gais i'r Cyngor Cymuned am gymorth ariannol. Nodwyd y dymuniad i gefnogi ymdrech Ffrindiau Bodedern yn eu gwaith cynnal a chadw'r maes chwarae, ond byddai'n ddoeth cael trafodiad uniongyrchol gyda'r cynrychiolydd. Y clerch i roi gwadd iddynt i'r cyfarfod nesaf i darfod ymhellach.

6. Deddf Cynllunio a Gwlad a Thref: I dderbyn unrhyw sylwadau ar geisiadau cynllunio a yrrwyd eisioes.

6.1 **Cefn Rhosydd, Bodedern** (wedi ei yrru drwy ebost 20 Awst 2019- dyddiad cau am sylwadau cyn dyddiad y cyfarfod-dim sylwadau wedi eu derbyn gan y clerch)

7. Gohebiaeth i'w adolygu.

7.1 Cyfarfod Pwyllgor Ardal Ynys Mon, Un Llais Cymru 26/9/19 am 7 yn Llangefni. Y clerch i fynychu.

7.2 Gwahoddiad i fynychu diwrnod gwybodaeth yn Llu Awyr Brenhinoly Fali. Y clerch i gadarnhau bydd **JAR** yn mynychu'r ail ddiwrnod, a diolch iddynt am y gwadd drwy'r gyfrwng gymraeg.

8. Taliadau i'w gwneud.

Mon Grass Cutting MGC3136 £240.00 Rhif seic: 200083

9. Eitemau a ddaeth i sylw'r cyngor gan y cynghorwyr.

9.1 **EABT** yn nodi fod y darn o dir sydd wedi ei amgau gan CSYM yn stryd Batus yn gor dyfu yn wyllt, ac fod sbwriel yn casglu yno. Y clerch i adrodd i wasaaneth amgylchedd CSYM gan ei fod yn beryg i iechyd, yn dennu llygod ayyb.

9.2 **JF** wedi derbyn cwyn nad yw'r Maes Chwarae yn cael ei dorri ddigon aml. Cadarnhaodd y clerch fod Cyngor Tref Caergybi gyda cytundeb i'w dorri bob pythefnos dros yr haf, ond i wneud ymholiadau pellach i gadarnhau fod hyn yn digwydd.

9.3 **JF** wedi derbyn cwyn gan aelod o'r cyhoedd nad oedd poster i hysbysu cais cynllunio ar dir Tre Angharad wedi eu lleoli ar y polion cywir yn yr ardal. **BH** yn cadarnhau fod hyn wedi digwydd, ac bod llyniau wedi eu tynnu o'r poster, ac fod llythyrau wedi eu gyrru i gymdogion y datblygiad i'w hysbysu.

9.4 **JAR** yn nodi fod twll mawr wrth Buarth Mawr heb gael sylw gan CSYM- y clerch i gysylltu a CSYM.

10. Dyddiad cyfarfod nesaf.

Cadarnhawyd bydd cyfarfod nesaf 28 Hydref 2019.

